

# Cyfraith Iechyd a Diogelwch

Beth sydd angen i chi ei wybod



Mae gan bob gweithiwr hawl sylfaenol i weithio mewn amgylchedd lle mae risgiau i iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n gywir. Mae Iechyd a Diogelwch yn ymwneud ag atal rhywun rhag cael ei anafu yn y gwaith neu fynd yn sâl o ganlyniad i'r gwaith. Cyfrifoldeb eich cyflogwr yw iechyd a diogelwch, ond rhaid i chi helpu.

## Beth mae'n rhaid i gyflogwyr ei wneud i chi

Mae hon yn fersiwn  
we-gyfeillgar o daflen  
ISBN 978 0 7176 6501 3  
a gyhoeddwyd 04/09

- 1 Penderfynu beth allai fod yn niweidiol i chi yn eich swydd a'r camau i'w cymryd i'w atal. Mae hyn yn rhan o'r asesiad risg.
- 2 Esbonio'n glir sut y gellir rheoli risgiau a dweud wrthynt pwy sy'n gyfrifol am hyn.
- 3 Ymgynghori a gweithio gyda chi a'ch cynrychiolwyr iechyd a diogelwch i ddiogelu pawb rhag niwed yn y gweithle.
- 4 Rhoi'r hyfforddiant iechyd a diogelwch sydd ei angen arnoch i wneud eich swydd, yn rhad ac am ddim.
- 5 Darparu unrhyw gyfarpar a dillad diogelwch sydd eu hangen arnoch, yn rhad ac am ddim, a gofalu amdanynt.
- 6 Darparu toiledau, cyfleusterau ymolchi a dŵr yfed.
- 7 Darparu cyfleusterau cymorth cyntaf digonol.
- 8 Hysbysu ein Canolfan Cyswllt Digwyddiadau ar **0845 300 9923** am unrhyw anafiadau mawr a marwolaethau. Hysbysu **www.hse.gov.uk** ar lein am anafiadau eraill, afiechydon a digwyddiadau peryglus.
- 9 Cael yswiriant rhag ofn i chi gael anaf yn y gwaith neu fynd yn sâl o ganlyniad iddo. Arddangos copi caled neu electronig o'r dystysgrif yswiriant gyfredol mewn lle amlwg.
- 10 Cydweithio â chyflogwyr a chontractwyr eraill sy'n rhannu'r gweithle neu sy'n darparu gweithwyr (fel gweithwyr asiantaeth), er mwyn diogelu iechyd a diogelwch pawb.

## Beth sy'n rhaid i chi ei wneud

- 1 Dilyn yr hyfforddiant a gawsoch wrth ddefnyddio unrhyw eitemau gwaith a roddwyd i chi gan eich cyflogwr.
- 2 Cymryd gofal rhesymol o'ch iechyd a'ch diogelwch chi eich hun ac eraill.
- 3 Cydweithredu â'ch cyflogwr ar faterion iechyd a diogelwch.
- 4 Rhoi gwybod i rywun (eich cyflogwr, goruchwylydd neu gynrychiolydd iechyd a diogelwch) os credwch fod y gwaith neu ragofalon annigonol yn peryglu iechyd a diogelwch unrhyw un.

## **Os oes problem**

- 1 Os ydych yn gofidio am iechyd a diogelwch yn eich gweithle, siaradwch â'ch cyflogwr, goruchwylydd, neu gynrychiolydd iechyd a diogelwch.
- 2 Gallwch hefyd edrych ar ein gwefan am wybodaeth gyffredinol am iechyd a diogelwch yn y gwaith.
- 3 Os ydych yn dal i ofidio ar ôl siarad â'ch cyflogwr, gallwch gael cyfeiriad eich awdurdod gorfodi iechyd a diogelwch lleol a'r Gwasanaeth Cyngori Meddygol ar Gyflogaeth drwy wefan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sef **[www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk)**


## **Diogelwch tân**

Gallwch gael cyngor am ddiogelwch tân gan y Gwasanaethau Tân ac Achub neu eich swyddog tân yn y gweithle.

## **Hawliau cyflogaeth**

Cewch wybod rhagor am eich hawliau cyflogaeth yn **[www.gov.uk](http://www.gov.uk)**.

Mae'r daflen hon ar gael yn [www.hse.gov.uk/pubns/books/lawposter.htm](http://www.hse.gov.uk/pubns/books/lawposter.htm).  
Mae'r wybodaeth ar gael mewn fformatau eraill.

©  *Hawlfraint y Goron* 2009 Os ydych yn dymuno aildddefnyddio'r wybodaeth hon ewch i [hse.gov.uk/copyright.htm](http://hse.gov.uk/copyright.htm) i gael manylion. Cyhoeddwyd gyntaf 04/09.